



Annwyl Riant,

Wrth i'r ysgol barhau i weithio tuag at gyflawni'r wobwr efydd yn ein menter Siarter Iaith Gymraeg, hoffem gymryd y cyfle i'ch atgoffa o'n 5 targed a sut y gallwch chi fod yn rhan o'r fenter gyffrous hon. Nôd y fenter yw darparu cyfleoedd i'ch plentyn ddatblygu eu medrau Cymraeg ymhellach yn yr ysgol ac yn y gymuned.

### Sut mae'n gweithio?


Gwobrwyd y plant yn rheolaidd am eu rhan wrth gyflawni'r targedau canlynol yn yr ysgol a thu hwnt:

1. Defnyddio Apiau a gwefannau Cymraeg
2. Gwrando ar gerddoriaeth Gymreig
3. Gwylio rhaglenni teledu Cymraeg neu DVD
4. Siarad Cymraeg gyda'r teulu
5. Siarad Cymraeg lle bo modd yn y gymuned

Bob tro mae'ch plentyn yn cyflawni un neu fwy o'r targedau uchod, maent yn ennill gwobrau sy'n cronni i ennill gwobrau mwy! **Po fwyaf o amser y gall eich plentyn brofi ei bod wedi cwblhau'r 5 targed, po fwyaf o siawns sydd ganddynt i ennill gwobrau!**


### Sut rydyn ni'n cadw golwg ar wobrau a enillwyd?

Mae pob plentyn wedi cael llyfr gwobrwyd Siarter Iaith Gymraeg personol i gadw golwg ar eu cyflawniadau ac fel y gallant deimlo'n falch o'u gwaith caled a'r rhan y maen nhw wedi'i chwarae wrth gyflawni'r 5 targed.



## Sut allwch chi gefnogi eich plentyn?

Gofynnwn yn garedig i chi roi cyfleoedd i alluogi eich plentyn i gyflawni'r 5 targed yn rheolaidd er mwyn parhau i ddatblygu eu sgiliau iaith ac ennill gwobrau. Mae'r ysgol am weithio gyda chi'n bellach ar geisio cyflawni targed rhif 5 gan ein bod yn sylweddoli taw hwn yw'r un fydd yn peri problemau os nad ydych yn ymwybodol o ble i fanteisio ar gyfleoedd siarad Cymraeg yn y gymuned. Rydym wedi darparu busnesau a sefydliadau lleol sydd ag aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg, gyda bathodynnau a phosteri er mwyn ei gwneud hi'n haws i chi adnabod ym mha sefydliadau allwch fynd ati i gyrraedd targed.rhif 5.



## Pa dystiolaeth sydd ei hangen ar yr ysgol o ran cyfranogiad eich plentyn?

Rydym am sicrhau bod yr holl blant sy'n cymryd rhan yn cael eu gwobrwo'n briodol am eu gwaith caled a'u hymdrechion brwdfrydig a hefyd yn sicrhau bod y broses o ddarparu tystiolaeth o'u hymdrechion yn gyflym ac yn effeithlon i rieni. Dyma le gall tudalen Trydar dosbarth eich plentyn ddod yn ddefnyddiol iawn! Gellir anfon 'tweet' cyflym (a all hefyd gynnwys llun neu fideo byr o'ch plentyn yn cyrraedd y targedau) atom. Yn syml, cyfeiriwch at y fenter trwy gynnwys #siarteriaithPYG yn eich 'tweet'. Gellir dod o hyd i restr o'r tudalennau Trydar dosbarth trwy sgrolio i waelod y dudalen. Fel arall, os nad oes gennych gyfrif Trydar, fe dderbynnir nodyn byr yn manylu ar gyflawniadau eich plentyn.

## Pa gamau eraill yr ydym yn eu cymryd i gefnogi disgyblion a rhieni yn y fenter hon?

Rydym yn gobeithio llunio cyfeiriadur o fusnesau Cymraeg eu hiaith yn yr ardal leol er mwyn gwneud y broses o siarad Cymraeg yn y gymuned ychydig yn haws i'ch plentyn. Rydym yn gofyn yn garedig, os ydych chi'n ymwybodol o leodd o'r fath, eich bod yn rhoi gwybod i ni drwy anfon 'tweet' i dudalen Trydar yr ysgol. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, gofynnwch i athro dosbarth eich plentyn am ragor o fanylion. **Diolch am eich cydweithrediad ym mhob mater.**

## Tudalennau Trydar yr ysgol

@DerbynPenyGarth

@B1\_PenyGarth

@B2\_PenyGarth

@B3\_PenyGarth

@B4\_PenyGarth

@B5\_PenyGarth

@B6\_PenyGarth

@YsgolPenyGarth



Ysgol Pen-y-Garth

